Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG

Teitl: Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA a Gŵyl Pencampwyr UEFA

Dyddiad: 25 Mai 2017

Gan: Elin Jones AC, y Llywydd, fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad

Gêm derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA fydd digwyddiad chwaraeon mwyaf y byd yn 2017 ac rydym yn falch iawn mai ein prifddinas fydd lleoliad gêm derfynol y menywod ddydd Iau 1 Mehefin a gêm derfynol y dynion ddydd Sadwrn 3 Mehefin.

Mae nifer o weithgareddau'n cael eu cynnal i gyd-fynd â'r gêm derfynol, gan gynnwys Gŵyl Pencampwyr UEFA, sy'n cael ei chynnal ym Mae Caerdydd o ddydd Iau 1 Mehefin i ddydd Sul 4 Mehefin, yn ystod toriad hanner tymor y Cynulliad. Cynhelir yr ŵyl hon i gyd-fynd â'r gêm derfynol bob blwyddyn ac mae'n gyfle i UEFA a'r noddwyr ymgysylltu â chefnogwyr pêl-droed mewn awyrgylch gyfeillgar lle y mae croeso i deuluoedd.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn falch o fod yn rhan o'r dathliadau hyn. Bydd Arena Rithwir y Pencampwyr yn y Pierhead ac rydym yn gobeithio y bydd llawer o ymwelwyr yn achub ar y cyfle i fynd ar daith o amgylch y Senedd yn ystod eu hymweliad.

Bydd llwyfan cerddoriaeth yn y basn a bydd cae pêl-droed yn arnofio ar y dŵr o flaen Cofeb y Morwyr, lle y cynhelir gêm arbennig rhwng rhai o sêr y byd pêl-droed ddydd Gwener 2 Mehefin am 16:00, yn ogystal â gemau 5 bob ochr rhwng timau cymunedol.

Disgwylir y bydd mwy na 200,000 o bobl yn ymweld â Bae Caerdydd dros bedwar diwrnod yr Ŵyl, sy'n agor bob dydd am 11:00 ac yn cynnwys wyth ardal ar gyfer noddwyr, a fydd wedi'u lleoli o amgylch y Pierhead a Phlas Roald Dahl.

Mae hwn yn ddigwyddiad cyffrous i'r Cynulliad, Caerdydd a Chymru, ac er y bydd yn tarfu rywfaint ar ein trefniadau teithio arferol, rydym yn edrych ymlaen at groesawu UEFA a'r cefnogwyr rhyngwladol i'r ŵyl a'r holl weithgareddau cysylltiedig.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Cysylltu@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Contact@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6565